FFLACHTÂN
FIREFLASH

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Diogelwch tân yn yr haf

Cafwyd dros 18,000 o danau glaswellt a choedwigoedd yng Nghymru dros y tair blynedd diwethaf ac roedd y gost i'r gymdeithas yn dros £36 miliwn.

75% wedi'i ailgylchu
recycled

ISBN 978 0 7504 4729 4
© Hawlfraint y Goron Mai 2008
CMK-22-10-065(009)
D0690809

Diogelwch tân yng nghefn gwlad

Bob blwyddyn, bydd tân yn difa miloedd o erwau o gefn gwlad a chynefinoedd bywyd gwyllt. Caiff nifer o danau eu cynnau'n fwriadol, ond oherwydd aflerwch y digwydd rhai.

- Diffoddwch sigaréts a phethau eraill sy'n mygu yn iawn.
- Peidiwch byth â thaflu stympiau allan o ffenestri ceir, gallant gychwyn tanau glaswellt.
- Defnyddiwch y barbeciw mewn mannau addas a diogel yn unig a pheidiwch byth â'i adael heb neb yn gofalu amdano.
- Peidiwch â chwarae yn ymyl y barbeciw.
- Gwnewch yn siŵr fod eich barbeciw wedi ei ddiffodd yn iawn a'i fod yn oer cyn cael gwared â'i gynnwys.
- Peidiwch byth â dechrau tanau agored yng nghefn gwlad.
- Ewch â'ch sbwriel ymaith bob tro.

Peidiwch ag achosi llanast â thân.

- Gall ymddangos fel petai'n syniad da ar y pryd, ond gellir colli rheolaeth ar dân yn yr awyr agored yn rhwydd iawn.
- Gwnewch yn siŵr gyda'r tirfeddiannwr ei fod yn caniatáu barbeciwiau, a gosodwch nhw mewn man diogel sydd wedi ei ddynodi'n unig.
- Cadwch blant rhag fatshys, sigaréts a thanau agored.

Pwysig

Os gwelwch dân yng nghefn gwlad, rhowch wybod amdano ar unwaith. Peidiwch â cheisio ymladd tanau, ewch o'r ardal yn gyflym ac yn ddiogel.

Storio slindrau nwy

- Storiwch silindrau nwy mewn amgylchedd diogel, da.
- Cadwch silindrau nwy rhag rhew ac o'r haul.
- Peidiwch byth â chadw silindrau nwy o dan y grisiau gartref - os byddwch i fyny'r grisiau dyma sut y byddwch yn dianc os digwydd tân.
- Peidiwch â chadw silindrau diangen. Ewch â phob silindr gwag i'r fan lle gwnaethoch ei brynu.

Diogelwch tân: gwersylla a charafanio

Byddwch yn ddiogel, gwnewch yn siŵr o'r rhain:

- Sicrhewch fod o leiaf 6m rhwng pob pabell neu garafan.
- Byddwch yn ymwybodol o beth yw'r trefniadau ymladd tân yn y gwersyll ac ymhle mae'r ffôn agosaf.
- Cadwch dortsh wrth law at argyfyngau. Peidiwch â defnyddio cannwyll.
- Gosodwch larwm tân optegol yn eich carafan.
- Peidiwch â gadael plant ar eu pennau eu hunain mewn carafan.

Os digwydd tân:

- Dewch â phawb allan ar unwaith. Mae tanau'n ymledu'n gyflym iawn mewn pebyll a charafanau.
- Galwch y gwasanaeth tân ac achub.
- Rhowch gyfeirnod map, os oes modd. Fel arall, nodwch fan amlwg megis tŷ fferm neu dŷ tafarn i helpu'r gwasanaeth tân ac achub i ganfod lle'r ydych.

Pebyll

- Cadwch fatshys a leitars allan o afael plant.
- Cadwch hylifau ymfflamychol a silindrau nwy yn glir oddi wrth bebyll.
- Peidiwch â choginio yn eich pabell.
- Byddwch yn barod i dorri'ch ffordd allan o'ch pabell os digwydd tân.
- Os aiff eich dillad ar dân, **STOPIWCH, CWYMPWCH A ROWLIWCH.**
- Peidiwch byth â defnyddio canhwyllau mewn pabell nac wrth ymyl un. Mae tortshys lawer yn saffach.
- Ni ddylid defnyddio taclau sy'n llosgi oel mewn pebyll nac o'u cwmpas.
- Ni ddylid defnyddio taclau coginio mewn pebyll bychain.
- Peidiwch â smygu mewn pebyll.

Atal yw'r allwedd:
Gall tân ddifa pabell mewn llai na 60 eiliad. Peidiwch â defnyddio fflamau agored mewn pebyll.

Diogelwch tân: y barbeciw

- Gwnewch yn siŵr fod eich barbeciw'n gweithio'n iawn.
- Cadwch fwced o ddŵr, bwced o dywod neu bibell ddyfrio gardd wrth law rhag ofn y digwydd argyfwng.
- Gwnewch yn siŵr fod safle eich barbeciw yn wastad ac yn ddigon pell oddi wrth adeiladau, ffensus, coed a llwyni.
- Peidiwch â defnyddio mwy o siarcol nag sy'n gorchuddio gwaelod y barbeciw hyd at ddyfnder o oddeutu 50mm (dwy fodfedd).
- Cadwch blant, chwaraeon gardd ac anifeiliaid anwes yn ddigon pell o'r man coginio.
- Peidiwch ag yfed a choginio.
- Pan fyddwch wedi gorffen coginio, gwnewch yn siŵr fod y barbeciw wedi oeri cyn ceisio'i symud. Gwagiwch y lludw ar bridd heb dyfiant arno.
- Peidiwch byth â gadael y barbeciw heb neb yn gofalu amdano.
- Peidiwch byth â rhoi lludw poeth mewn bin lludw neu fin ar olwynion, gall doddi'r plastig ac achosi tân.

Cofiwch:
Peidiwch byth â chynnau barbeciw yn y tŷ!

Barbeciw nwy

- Gwnewch yn siŵr fod y tap wedi'i gau cyn newid y silindr nwy.
- Newidiwch silindrau nwy yn yr awyr agored os oes modd neu agorwch ddrysau a ffenestri er mwyn cael digon o aer.
- Pan fyddwch wedi gorffen coginio caewch y silindr nwy cyn cau'r botymau ar y barbeciw, er mwyn gwneud yn siŵr bod yr holl nwy yn y bibell wedi cael ei ddefnyddio.

Rhif Argyfwng Nwy 0800 111 999

Os ydych yn amau bod y silindr nwy neu'r pibelli yn gollwng:

- Ewch â'r barbeciw i'w drin at berson cymwys.

Os bydd tân -
ewch allan,
arhoswch allan
a ffoniwch

999

I gael archwiliad diogelwch tân am ddim yn eich cartref gan eich Gwasanaeth Tân ac Achub lleol

ffoniwch 0800 169 1234

www.fflachtan.org